***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 895

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003

## RHAN III

### Lwfansau — Darpariaeth Bellach

**Swm y lwfansau a.y.y.b.**

**7.** Mewn perthynas â lwfansau o dan Ran II rhaid i awdurdod ddarparu, yn ddarostyngedig i Reoliadau 5 a 6, ar gyfer addasu'r lwfansau hynny'n flynyddol o 1 Ebrill ym mhob blwyddyn a hynny'n hafal i'r ffigur a gyhoeddir ar gyfer y flwyddyn flaenorol fel y cynnydd canrannol (os o gwbl) yn y mynegai i'r Cyflog Cyfartalog i Wrywod Nad Ydynt yn Gweithio â Dwylo yn yr Archwiliad Enillion Newydd a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Dewisiadau**

**8.** Caiff aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir i swyddog priodol yr awdurdod, ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o hawl yr aelod hwnnw i gael lwfans o dan y Rheoliadau hyn.